
Archwilio Cymru
Audit Wales

# Ymgynghoriad ar ein hamcanion cydraddoldeb arfaethedig ar gyfer 2026-2030

Rhagfyr 2025



# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Sut i ymateb | 5 |
| Diogelu data | 6 |
| Cyhoeddi ymatebion | 6 |
| Cydraddoldeb ac Archwilio Cymru | 7 |
| Ein hamcanion cydraddoldeb arfaethedig | 8 |
| Camau ychwanegol i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol yn well | 22 |

# Rhagair

**Mae arnom eisiau ceisio eich barn ynglŷn â'n hamcanion cydraddoldeb arfaethedig ar gyfer 2026-2030 a'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i'w cyflawni. A fyddech cystal â rhoi o'ch amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori fer hon os gwelwch yn dda a rhannu eich ymatebion gyda ni erbyn 20 Ionawr 2026.**

**Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig.**

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn gweithio i baratoi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf gydag amcanion cydraddoldeb a fydd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2030.

Fe gyhoeddom ni ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol ym mis Medi 2022, a hwnnw'n nodi'r pethau allweddol yr oeddem yn bwriadu eu gwneud dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2026 i helpu i ddileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da yng Nghymru.

Yn yr amser hwnnw, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni rhaglen o waith sy'n ein helpu i gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol a chyflawni ein hamcanion cydraddoldeb. Adroddwyd ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r rhaglen waith honno bob blwyddyn yn ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol. Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2024-25 ym mis Hydref 2025 ac mae'n amlygu camau gweithredu ystyrlon a pharhaus i wreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y sefydliad – o recriwtio a chymorth i staff, gan gynnwys ystyriaethau o ran cydraddoldeb yn ein gwaith archwilio, i'n gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd.

Rydym yn blês gyda'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud ond yn cydnabod nad da lle gellir gwell. Gan hynny, rydym wedi datblygu casgliad diwygiedig o amcanion cydraddoldeb a ddylai danategu ein gwaith am y pedair blynedd nesaf yn ein tyb ni.

Rydym yn cynnig cadw'r pedwar amcan cydraddoldeb o'n Cynllun cyfredol. Rydym yn teimlo eu bod yn dal i fod yn berthnasol iawn i'n gwaith a bod angen i ni wneud gwaith pellach yn y meysydd hynny. Rydym hefyd yn cynnig ychwanegu amcan arall sy'n pwysleisio pwysigrwydd gwreiddio ystyriaethau o ran cydraddoldeb yn llawn yn ein prosesau penderfynu mewnol.

Ffocws allweddol i ni wrth baratoi’r ymgynghoriad hwn fu adolygu a chrynhoi’r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni’r pum amcan cydraddoldeb hyn dros y pedair blynedd nesaf. Trwy’r gwaith hwnnw, ochr yn ochr â’r camau parhaus yr ydym yn bwriadu parhau i’w cymryd a gwella arnynt, rydym wedi adnabod tri cham ychwanegol, sylweddol a fydd yn ein helpu i gyflawni’r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol yn well yn ein tyb ni.

Diolch am roi o’ch amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori fer hon. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Dr Ian Rees**
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

# Sut i ymateb

Ymatebwch erbyn 20 Ionawr 2026 os gwelwch yn dda.

Gellir cyflwyno ymatebion trwy'r ffurflen ar y we neu eu hanfon trwy'r e-bost i: post@archwilio.cymru

Neu i'r cyfeiriad canlynol:

Y Tîm Cynllunio ac Adrodd
Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir isod neu dros y ffôn ar 029 2032 0500.

## Diogelu data

Rydym yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Byddwn yn dal eich data'n ddiogel yn unol â'n polisïau Diogelwch Gwybodaeth a Rheoli Dogfennau a Chofnodion. Gweler ein Polisi preifatrwydd am ragor o wybodaeth.

## Cyhoeddi ymatebion

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ond hefyd deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os oes arnoch eisiau i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol, dylech ddweud wrthym pam eich bod yn ystyried bod yr wybodaeth yr ydych wedi'i darparu'n gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu gwybodaeth byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd ym mhob math o amgylchiadau. Ni fyddir yn ystyried bod ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchwyd gan eich system TG, ynddo'i hun, yn rhwymo'r Archwilydd Cyffredinol nac Archwilio Cymru.

Bydd data personol yn cael ei brosesu yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Lle mae data o'r fath yn perthyn o fewn cwmpas cais am wybodaeth gan rywun arall, bydd angen ystyried darpariaethau deddfwriaeth diogelu data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn yr amgylchiadau penodol. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae hyn yn debygol o olygu bod gwybodaeth am uwch swyddogion a ffigyrau cyhoeddus yn debygol o gael ei datgelu tra bo enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd yn debygol o gael eu cadw'n ôl.

# Cydraddoldeb ac Archwilio Cymru

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol sector cyhoeddus Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru.

2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu adnoddau i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac mae'n monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n cyflogi oddeutu 300 o aelodau o staff ar hyn o bryd.

3 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio oddeutu £28 biliwn o incwm a gwariant. Mae ein gwaith o gymorth i graffu'n effeithiol ar arian cyhoeddus gan y Senedd a chynrychiolwyr a etholwyd yn lleol.

4 Mae ein Cynllun Blynyddol diweddaraf yn darparu rhagor o fanylion am ein strategaeth ar y cyfan, yr ystod o gyrff yr ydym yn eu harchwilio, a sut yr ydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru.

5 Mae prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio stiwardiaeth ar arian cyhoeddus gan gyrff cyhoeddus Cymru ac adrodd ar hynny. Wrth wneud y gwaith hwn, rydym yn ystyried pa mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn cael eu rhedeg ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Wrth adrodd ar gyrff cyhoeddus, ac wrth wneud argymhellion, gall yr Archwilydd Cyffredinol roi anogaeth i wneud newidiadau buddiol o ran cydraddoldeb.

6 Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth yr holl bobl, ein staff ni ein hunain a'r rhai yr ydym yn dod i gysylltiad â hwy yn ystod ein gwaith. Rydym yn llwyr gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

7 Fel cyflogwr ag oddeutu 300 o aelodau o staff, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cael effaith arwyddocaol ac uniongyrchol ar bobl o ran cydraddoldeb. Mae'r Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd darparu cyfle cyfartal ar draws yr ystod lawn o ffactorau cyflogaeth, gan gynnwys recriwtio, hyfforddiant, dyrchafiad, ffyrdd o weithio, a thelerau ac amodau, gan gynnwys cyflog.

8 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ddilyn y fframwaith amddiffyn rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig. Mae dyletswydd arnom hefyd i gynnal yr hawliau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998.

9 Gan bod yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru'n endidau cyfreithiol ar wahân, mae'n ofynnol iddynt ill dau ddatblygu eu hamcanion cydraddoldeb eu hunain. Fodd bynnag, gan ein bod yn gweithio gyda'n gilydd yn yr un sefydliad rydym wedi cytuno i greu cynllun ar y cyd ar gyfer Archwilio Cymru.

## Ein hamcanion cydraddoldeb arfaethedig

10 I ddatblygu casgliad diwygiedig o amcanion cydraddoldeb, fe wnaeth ein Tîm Arwain Gweithredol ystyried y canlynol:

a. A ddylai amcanion presennol yr aseswyd fod cynnydd effeithiol wedi cael ei wneud gyda hwy gael eu tynnu oddi ar y rhestr.

b. A ddylid ychwanegu unrhyw amcanion newydd at y rhestr i adlewyrchu ein hamgylchiadau cyfredol, gan gyfeirio'n benodol at ein gwybodaeth cyflogaeth a ddadansoddir yn ôl nodweddion gwarchodedig, ein cofrestrau risg strategol a gweithredol, a'r dadansoddiad o'n hamgylchedd gweithredu fel y'i disgrifir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26.

11 Canlyniad cychwynnol y trafodaethau hynny, yn dilyn ystyriaeth bellach gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a Pawb, ein grŵp buddiant cydraddoldeb staff, yw ein bod yn cynnig cadw'r pedwar amcan cydraddoldeb o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol. Rydym ni o'r farn bod yr amcanion hynny'n dal i fod yn berthnasol iawn i'n gwaith am y pedair blynedd nesaf ac nad da lle gellir gwell yn y meysydd hynny.

12 Rydym hefyd yn cynnig ychwanegu amcan pellach sy'n pwysleisio pwysigrwydd gwreiddio ystyriaethau o ran cydraddoldeb yn llawn yn ein prosesau penderfynu mewnol.

13 Ffocws allweddol i ni wrth baratoi'r ymgynghoriad hwn fu adolygu a chrynhoi'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r pum amcan cydraddoldeb hyn dros y pedair blynedd nesaf.

14 Caiff ein pum amcan cydraddoldeb arfaethedig ar gyfer 2026-2030 a'r camau yr ydym yn bwriadu parhau i'w cymryd a gwella arnynt i'w cyflawni eu nodi ar y tudalennau canlynol.

# Amcan 1

## Sicrhau y rhoddir sylw perthnasol ac amserol i faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein rhaglen o waith archwilio

### Pam fod hyn yn bwysig?

- Ystyrir bod rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol yn ddylanwadol o ran newid polisïau ac arferion cyrff cyhoeddus
- Trwy ein gwaith archwilio, rydym yn awyddus i chwarae ein rhan i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghymru.

### Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd dan yr amcan hwn?

- Bydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn dal i fod yn un o'r themâu allweddol sy'n tanategu ein blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.
- Bydd Cod Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol, ochr yn ochr â chanllawiau ategol, yn rhagnodi sut y dylai archwilwyr ystyried materion cydraddoldeb wrth wneud gwaith archwilio cyfrifon lleol, gwaith archwilio perfformiad lleol ac astudiaethau cenedlaethol.
- Wrth gynllunio'r holl astudiaethau cenedlaethol unigol a gwaith perfformiad lleol, bydd hi'n ofynnol i'n timau archwilio ystyried lle gallai archwiliad penodol fod yn berthnasol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chynorthwyo'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb.
- Byddwn yn ystyried a yw cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn iddynt allu cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, gan gynnwys 'Cymru Gyfartal', trwy'r modd y maent yn pennu eu hamcanion llesiant a'r camau y maent yn eu cymryd i'w cyflawni.
- Wrth gynnal astudiaethau, byddwn yn ystyried cyfleoedd ar gamau priodol i wahodd mewnbwn gan gyrff cynrychioli perthnasol neu'n uniongyrchol gan y bobl yr effeithir arnynt.

- Byddwn yn ymgysylltu â'r Cynghrair Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – rhwydwaith o sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru – i rannu gwybodaeth am ein rhaglen waith a cheisio eu barn.
- O bryd i'w gilydd, byddwn yn cwrdd â chydweithwyr o gyrff adolygu allanol eraill, gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, i helpu i sicrhau ein bod yn osgoi gosod gofynion diangen neu ddyblyg ar gyrff cyhoeddus a chyrff eraill ac yn gwella effaith gyfunol ein gwaith.
- Byddwn yn cadw golwg ar gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i argymhellion archwilio perthnasol.
- Byddwn yn aros yn effro i gyfleoedd i rannu gwersi archwilio ar faterion sy'n berthnasol i gydraddoldeb gyda chynulleidfaoedd ehangach, gan gynnwys i oleuo datblygiad polisi a gweithgarwch craffu ar bolisi.

## Cwestiwn 1a

### Ydych chi'n cytuno â'r amcan cydraddoldeb arfaethedig hwn?

Dewiswch opsiwn

### Byddai o gymorth pe gallech ddarparu unrhyw sylwadau ategol yn y blwch isod.

## Cwestiwn 2b

### Ydych chi'n cytuno â'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcan hwn?

Dewisiwch opsiwn

### Byddai o gymorth pe gallech ddarparu unrhyw sylwadau ategol yn y blwch iso

# Amcan 2

## Deall yn well beth yw anghenion cyfathrebu amrywiol ein cynulleidfaoedd a chryfhau hygyrchedd ein hallbynnau a'n negeseuon

### Pam fod hyn yn bwysig?

- Er mwyn cynyddu effaith ein gwaith i'r eithaf, rhaid i ni gyfathrebu'n glir ac yn hygyrch gydag ystod o gynulleidfaoedd, gan ystyried anghenion penodol ac addasiadau gofynnol.

### Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd dan yr amcan hwn?[1]

- Byddwn yn ceisio cyngor ac achrediad gan gyrff allanol sy'n arbenigo mewn hygyrchedd i bobl â nodweddion gwarchodedig.
- Byddwn yn myfyrio ynghylch pa mor dda y mae newidiadau diweddar i'n trefniadau ar gyfer paratoi a dylunio adroddiadau archwilio'n mynd rhagddynt, yn seiliedig ar adborth gan staff a rhanddeiliaid. Nod y newidiadau hyn ar y cyfan fu gwneud ein hadroddiadau'n fyrrach ac yn haws i'w darllen, fel eu bod yn diwallu anghenion hygyrchedd ein cynulleidfa ac yn ateb gofynion ansawdd archwilio newydd yn well.
- Bydd Swyddog Cyfathrebu Digidol yn cefnogi staff ar draws y sefydliad i sicrhau bod ein hallbynnau'n hygyrch ac yn diwallu anghenion amryw gynulleidfaoedd.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu a phrofi hygyrchedd ein gwefan yn erbyn Safon hygyrchedd gwefannau WCAG 2.2 a ddiweddarwyd – yn dilyn asesiad gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS), rydym wedi ennill Safon Hygyrchedd GDS
- Byddwn yn sicrhau bod ein holl adroddiadau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â Safonau'r Gymraeg.
- Fesul achos unigol, byddwn yn ystyried a fyddai'n briodol cyhoeddi mewn ieithoedd/fformatau eraill ar gyfer cynulleidfaoedd targed.

1 Mae rhai o'r gweithgareddau a nodir dan amcan 1 yn berthnasol i'r amcan hwn hefyd.

## Cwestiwn 2a

### Ydych chi'n cytuno â'r amcan cydraddoldeb arfaethedig hwn?

Dewisiwch opsiwn

### Byddai o gymorth pe gallech ddarparu unrhyw sylwadau ategol yn y blwch isod.

## Cwestiwn 2b

### Ydych chi'n cytuno â'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcan hwn?

Dewisiwch opsiwn

### Byddai o gymorth pe gallech ddarparu unrhyw sylwadau ategol yn y blwch isod.

# Amcan 3

## Gwreiddio ystyriaethau o ran cydraddoldeb a hawliau dynol yn llawn yn ein prosesau cynllunio a phenderfynu mewnol

### Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae gwreiddio cydraddoldeb mewn prosesau penderfynu'n arwain at ddeilliannau tecach, yn lleihau gwahaniaethu, ac yn meithrin amgylchedd mwy cynhwysol sydd o fudd i unigolion a'r sefydliad cyfan.
- Rydym yn dyheu am fod yn batrwm o sefydliad ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a'r tu hwnt

### Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd dan yr amcan hwn?

- Byddwn yn aseinio cefnogaeth a goruchwyliaeth i'r Cynllun hwn ar lefel weithredol gydag aelod cyswllt o'r Bwrdd i graffu a chefnogi o safbwynt anweithredol.
- Byddwn yn rhoi sylw i ystyriaethau o ran cydraddoldeb a hawliau dynol fel rhan o'n trefniadau i asesu effaith debygol polisïau ac arferion mewnol (yn rhai diwygiedig neu newydd).
- Byddwn yn cadw casgliad o gwestiynau sy'n ymwneud â chydraddoldeb o fewn ein harolwg staff cyffredinol, gan felly esgor ar fewnwelediad i ganfyddiadau staff i oleuo prosesau penderfynu.
- Byddwn yn ceisio ac yn ystyried barn Pawb, ein grŵp buddiant cydraddoldeb staff, wrth wneud y canlynol:
  - Cynnal asesiadau o effeithiau polisïau ac arferion perthnasol
  - Adrodd ar gynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb
  - Datblygu ein harolwg staff blynyddol
  - Adolygu a diwygio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Wrth gaffael gwasanaethau, byddwn yn:
  - Cynnwys gofynion sy'n berthnasol i gyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb yn ein meini prawf dyfarnu tendrau.
  - Cydymffurfio â'n dyletswyddau cydraddoldeb wrth amodi'r safonau perfformiad i'w cynnwys mewn contractau.
- Byddwn yn monitro amrywiaeth ac yn gwneud gwaith parhaus i ddatblygu offeryn data rhyngweithiol sy'n darparu manylion amrywiaeth ein gweithlu ac ymgeiswyr am ein swyddi, a'n bylchau cyflog, ar gyfer penderfynwyr

## Cwestiwn 3a

### Ydych chi'n cytuno â'r amcan cydraddoldeb arfaethedig hwn?

Dewisiwch opsiwn

### Byddai o gymorth pe gallech ddarparu unrhyw sylwadau ategol yn y blwch isod.

## Cwestiwn 3b

### Ydych chi'n cytuno â'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcan hwn?

Dewisiwch opsiwn

### Byddai o gymorth pe gallech ddarparu unrhyw sylwadau ategol yn y blwch isod.

# Amcan 4

## Denu a chadw pobl ddawnus o bob cefndir, a sicrhau bod ein gweithlu'n cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau yng Nghymru'n fwy

### Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae denu pobl o wahanol gefndiroedd yn debygol o wella ansawdd ein gwaith trwy gyflwyno syniadau newydd, safbwyntiau newydd a ffyrdd newydd o weithio.
- Mae gweithlu yn Archwilio Cymru sy'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu'n fwy tebygol o ennyn ymddiriedaeth a pharch y cyhoedd ehangach.

### Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd dan yr amcan hwn?[2]

- Byddwn yn cynnal ymgyrchoedd recriwtio blynyddol cynhwysol ar gyfer ein rhaglenni hyfforddeion graddedig a phrentisiaethau.
- Byddwn yn adolygu'r holl ymgyrchoedd recriwtio'n rheolaidd i sicrhau tegwch trwy gydol ein proses recriwtio.
- Byddwn yn cynnwys 'adrodd storïau unigol' yn ein hymgyrchoedd, gan arddangos amrywiaeth ymhlith y gweithlu ac amlygu ein hystod o fuddion a'r amgylchedd gweithio cynhwysol.
- Byddwn yn cynnal sesiynau hyfforddi i reolwyr sy'n recriwtio ac eraill sy'n rhan o'r broses recriwtio, i sicrhau bod safonau a phrosesau cyson yn cael eu cymhwyso.
- Byddwn yn cymhwyso rheolau llym i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau yn ein panelau cyfweld.
- Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd allgymorth i amlygu Archwilio Cymru fel cyflogwr cynhwysol a denu ymgeiswyr o gymunedau mwy difreintiedig ac amrywiol.
- Byddwn yn cynnig Cynllun Gwarantu Cyfweliad i ymgeiswyr sy'n ystyried bod ganddynt anabledd ac yn ateb y gofynion hanfodol ar gyfer swyddi a hysbysebwyd.
- Byddwn yn parhau i ymrwymo i'r Cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd (statws cyflogwr Lefel 2 ar hyn o bryd)

2 Mae rhai o'r gweithgareddau a nodir dan amcan 3 yn berthnasol i'r amcan hwn hefyd.

- Byddwn yn parhau i sicrhau achrediadau ac aelodaethau gyda'r canlynol: Cyflogwr Cyflog Byw, Teuluoedd sy'n Gweithio, Blodyn Haul Anableddau Cudd, a Scope.
- Byddwn yn cynnal nifer o brosiectau i gefnogi'r holl gydweithwyr gyda'u datblygiad a thwf eu gyrfa, gan gynnwys rhaglen Darpar Arweinwyr, a chwrs Arwain Pobl a Phrosiectau.
- Byddwn yn parhau i gymhwyso trefniadau trylwyr ar gyfer cysoni cyflog i sicrhau bod cyflogau swyddi sydd o werth cyfartal yn cyd-fynd â'i gilydd.

## Cwestiwn 4a

### Ydych chi'n cytuno â'r amcan cydraddoldeb arfaethedig hwn?

Dewisiwch opsiwn

### Byddai o gymorth pe gallech ddarparu unrhyw sylwadau ategol yn y blwch isod.

## Cwestiwn 4b

### Ydych chi'n cytuno â'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcan hwn?

Dewisiwch opsiwn

### Byddai o gymorth pe gallech ddarparu unrhyw sylwadau ategol yn y blwch isod.

# Amcan 5

## Gwreiddio diwylliant o gynhwysiant, ymddiriedaeth a hunanfyfyrio, lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu

### Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae unigolion a thimau'n fwy tebygol o gyflawni eu llawn botensial a ffynnu mewn sefydliad sy'n cynnwys pobl mewn ffordd sy'n deg â phawb, yn parchu ac yn gwerthfawrogi gwahaniaethau pawb ac yn grymuso ac yn galluogi pawb i fod yn nhw eu hunain.

### Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd dan yr amcan hwn?[3]

- Byddwn yn cymhwyso'r polisi Urddas a Pharch a pholisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sydd ill dau wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar dan ein trefniadau asesu effaith, gan gynnwys er mwyn ystyried y ddyletswydd gyfreithiol newydd i gymryd camau rhesymol i atal aflonyddu rhywiol a chreu amgylchedd gweithio diogel.
- Byddwn yn darparu rhaglen o hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gorfodol a ddiweddarwyd yn ddiweddar ar gyfer yr holl staff.
- Byddwn yn darparu Llwybr LinkedIn Learning i gefnogi dysgu parhaus mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Byddwn yn cynorthwyo aelodau Pawb i sicrhau ymgysylltu effeithiol â chyflogeion sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig.
- Byddwn yn cynorthwyo aelodau Pawb i weithredu fel hyrwyddwyr cydraddoldeb sydd ar gael i staff godi pryderon a rhannu syniadau ynghylch sut y gellir gwella ein polisïau a'n harferion.
- Byddwn yn sicrhau cymorth gwell i'n grwpiau rhwydwaith staff perthnasol presennol trwy godi ymwybyddiaeth, ffocws newydd ac annog pobl i gyfranogi.
- Byddwn yn parhau i gefnogi rhwydwaith o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl a hyrwyddwyr llesiant sydd i gyd yn wirfoddolwyr y tu mewn i'r sefydliad

3 Mae rhai o'r gweithgareddau a nodir dan amcanion 3 a 4 yn berthnasol i'r amcan hwn hefyd.

- Byddwn yn parhau i ddarparu mynediad at raglen cynorthwyo cyflogeion 24/7 gan gynnig mynediad i staff at gwnsela a chymorth emosiynol cyfrinachol pan fo’u hangen.
- Yn amodol ar ofynion gweithredol, byddwn yn cefnogi cyflogeion sy’n dymuno cynnal gweithgareddau cymunedol neu elusennol cysylltiedig.

## Cwestiwn 5a

### Ydych chi'n cytuno â'r amcan cydraddoldeb arfaethedig hwn?

Dewisiwch opsiwn

### Byddai o gymorth pe gallech ddarparu unrhyw sylwadau ategol yn y blwch isod.

## Cwestiwn 5b

### Ydych chi'n cytuno â'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcan hwn?

Dewisiwch opsiwn

### Byddai o gymorth pe gallech ddarparu unrhyw sylwadau ategol yn y blwch isod.

## Camau ychwanegol i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol yn well


15 Gan ystyried mewnbwn gan weithgor ar draws y sefydliad a'n Grŵp Buddiant Cydraddoldeb staff, Pawb, rydym yn cynnig cymryd tri cham sylweddol, ychwanegol fel rhan o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2026-2030 i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol yn well.

16 Ceir disgrifiad o'r camau ychwanegol hyn, y rhesymeg dros gymryd pob cam, a sut y mae pob cam yn cyd-fynd â'n hamcanion cydraddoldeb arfaethedig, yn y tabl isod.

17 Yn dilyn cytundeb derfynol arnynt, byddai'r camau hyn yn ffocws arbennig ar gyfer goruchwyliaeth a monitro yn y dyfodol gan ein Tîm Arwain Gweithredol a'n Bwrdd dros gyfnod y Cynllun.

| Camau ychwanegol arfaethedig | Rhesymeg dros y camau ychwanegol hyn | Sut y maent yn cyd-fynd â'r amcanion cydraddoldeb |
|---|---|---|
| **Byddwn yn gwella ein dull o gasglu a dadansoddi gwybodaeth amrywiaeth gan staff ac ymgeiswyr am swyddi. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn cyflwyno proses i gasglu a dadansoddi data ar gefndir economaidd-gymdeithasol.** | Ar hyn o bryd rydym yn casglu ac yn dadansoddi data gan staff ac ymgeiswyr am swyddi ar nodweddion gwarchodedig a nodweddion cydraddoldeb eraill i oleuo'r penderfyniadau strategol a wneir gennym. Rydym yn adrodd yn allanol ar amrywiaeth ein gweithlu ac ymgeiswyr am ein swyddi, ac ar ein bylchau cyflog, trwy offeryn data rhyngweithiol sy'n cyd-fynd â'n Hadroddiadau Cydraddoldeb blynyddol.<br><br>Er bod newidiadau wedi cael eu gwneud i fireinio ein proses ar gyfer casglu data gan ddechreuwyr newydd trwy system gynefino newydd, nid da lle gellir gwell. Trwy'r cam ychwanegol hwn rydym yn amcanu at gynyddu cyfraddau ymateb a gwella ehangder ac ansawdd data.<br><br>Hefyd, nid ydym yn casglu data ar gefndir economaidd-gymdeithasol ar gyfer ein gweithlu nac ymgeiswyr am ein swyddi ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhwystro ein gallu i weithredu yn ysbryd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. | <br><br>Gwreiddio ystyriaethau o ran cydraddoldeb a hawliau dynol yn llawn yn ein prosesau cynllunio a phenderfynu mewnol |

| Camau ychwanegol arfaethedig | Rhesymeg dros y camau ychwanegol hyn | Sut y maent yn cyd-fynd â’r amcanion cydraddoldeb |
|---|---|---|
| **Byddwn yn teilwra ein dulliau allgymorth a recriwtio, gyda ffocws ar gynyddu cynrychiolaeth yn ein gweithlu o blith unigolion o gymunedau ethnig leiafrifol, cefndiroedd Cymraeg, a phobl ag anableddau.** | Fel a nodwyd yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb 2024-25 yn ddiweddar, mae ein ffigwr ar gyfer cynrychiolaeth o blith lleiafrifoedd ethnig yn dal i fod yn is na’r gyfran gyfatebol o boblogaeth Cymru. Er y cydnabyddir bod ein data’n sensitif i newidiadau bychain hyd yn oed, mae cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig yn ein gweithlu’n dal i fod yn faes y rhoddir ffocws arno.<br><br>Hefyd, mae 10% o’n cyflogeion yn cofnodi ar hyn o bryd bod ganddynt anabledd. Mewn cyferbyniad, mae’r amcangyfrifon diweddaraf o Arolwg o Adnoddau Teulu yr Adran Gwaith a Phensiynau’n dynodi, ar gyfer oedolion o oedran gweithio, bod cyfran y bobl anabl yn y DU yn 24%.<br><br>Yn ein Hadroddiadau ar y Gymraeg, a gaiff eu llunio’n flynyddol, rydym hefyd wedi dynodi bod angen i ni gynyddu cynrychiolaeth yn ein gweithlu o blith unigolion o gefndiroedd Cymraeg i allu darparu gwasanaeth archwilio dwyieithog yn effeithiol, yn unol â Safonau’r Gymraeg. Ceir peth gorgyffwrdd yn y maes hwn â’n hamcanion cydraddoldeb gan yr ystyrir yn gyfreithiol bod iaith yn agwedd ar nodwedd warchodedig ‘hil’. | <br><br>Denu a chadw pobl ddawnus o bob cefndir, a sicrhau bod ein gweithlu’n cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau yng Nghymru’n fwy |

| Camau ychwanegol arfaethedig | Rhesymeg dros y camau ychwanegol hyn | Sut y maent yn cyd-fynd â’r amcanion cydraddoldeb |
|---|---|---|
| **Byddwn ni’n rhagweithiol o ran rhoi sylw i ystyriaethau o ran cydraddoldeb wrth archwilio sut allem ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI). Bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau fel gofynion preifatrwydd, addasiadau rhesymol a chydsyniad ar sail gwybodaeth.** | Fe wnaethom nodi yn ein Hadroddiad Interim bod Archwilio Cymru, ers mis Mawrth 2025, wedi bod yn cynnal menter i archwilio sut allem ni ddefnyddio Microsoft Copilot i wella effeithlonrwydd, cynhyrchiant, a hyder digidol ar draws y sefydliad.<br><br>Ar y cyfan, mae nifer o achosion addawol o’i ddefnyddio wedi cael eu hadnabod i’w harchwilio ymhellach, yn amodol ar gadw crebwyll a goruchwyliaeth gan fodau dynol. Yr argymhellion dros dro yw ehangu hyn i ystyried rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio AI mewn ffordd a reolir i helpu i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ein gwaith.<br><br>Mae AI yn faes lle ceir newid cyflym ac sydd â’r potensial i gael effeithiau arwyddocaol ar sut yr ydym yn gweithio. Mae angen i ddefnydd arfaethedig o allu i gyflawni swyddogaethau megis trawsgrifio cyfarfodydd, prosesu data biometrig, a dadansoddi teimladau gael ei ystyried yn ofalus ac yn barhaus o safbwynt cydraddoldeb. | <br>Gwreiddio ystyriaethau o ran cydraddoldeb a hawliau dynol yn llawn yn ein prosesau cynllunio a phenderfynu mewnol<br><br><br>Gwreiddio diwylliant o gynhwysiant, ymddiriedaeth a hunanfyfyrio, lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u parchu |

## Cwestiwn 6

**Ydych chi'n cytuno â'r tri cham ychwanegol yr ydym yn bwriadu eu cymryd i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol yn well?**

Dewisiwch opsiwn

**Byddai o gymorth pe gallech ddarparu unrhyw sylwadau ategol yn y blwch isod.**

## Cwestiwn 7

**Ydych chi'n meddwl y dylem gynnwys unrhyw amcanion cydraddoldeb a chamau cysylltiedig eraill yn ein cynllun ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2030?**

Dewisiwch opsiwn

**Byddai o gymorth pe gallech ddarparu unrhyw sylwadau ategol yn y blwch isod.**

## Eich Manylion

Fe hoffem wybod ychydig amdanoch chi a'ch sefydliad. Bydd hyn yn helpu i roi cyd-destun ychwanegol i ni ar gyfer eich ymateb. Fodd bynnag, nid ydych dan unrhyw rwymedigaeth i ddarparu'r wybodaeth hon

Enw a theitl swydd/rôl (lle y bo'n berthnasol):

Enw eich sefydliad (lle y bo'n berthnasol):

Diolch am roi o'ch amser i ymateb.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn adolygu'r holl ymatebion, gyda mewnbwn gan Pawb, ac yn eu hystyried wrth baratoi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf ar gyfer ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2026.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.